Sut i Fesur Bocys

Rhowch union fesuriadau'r eitem/au sydd i'w storio yn y bocs, mewn milimedrau.

1. Hyd/Uchder – Mesuriad unrhyw eitem o ben i ben. Yn achos llyfr, hyd cyfan y meingefn.

2. Lled – Y mesuriad o ochr i ochr. Yn achos llyfr, o ochr y meingefn hyd at ymylon y clawr.

3. Dyfnder – Trwch yr eitem. Mesurir rhan fwyaf trwchus y llyfr neu'r eitem.

Mae'r dull hwn o fesur yn addas ar gyfer eitemau megis:

- Dalennau rhydd.
- Eitemau wedi eu rholio neu fwndelu.
- Ffotograffau, cyfryngau modern, CDs.
- Tecstilau a dilladach.

Gellir darparu bocsys parod unigol ar gais. Fel arall bydd angen i chi eu rhoi at ei gilydd.

Sut i'w rhoi at ei gilydd

1. Plygwch ar hyd y crych fel bod ochr lwyd y cardfwrdd ar ochr fewnol y bocs.

2. Agorwch a phlygwch y bocs gydag ochr lwyd y cardfwrdd ar ochr allanol y bocs. Bydd hyn yn galluogi'r cardfwrdd i ymestyn gyda'r plygiad heb gracio.

3. Bydd y bocs yn clicio at ei gilydd gyda'r tabiau yn cloi yn y tyllau sydd yno ar eu cyfer.